CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Pennal a gynhaliwyd Nos Wener y 7fed o Dachwedd 2025 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, William Rees, Meirion Roberts, Ken Griffiths, Sion Evans, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.
   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Aled Rees.
   Cafwyd datganiad o ddiddordeb ar eitem 4c sydd ar yr agenda gan Cyng James Brunton, Cyng Rhys Parry a Cyng Meirion Roberts.
2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fedi 2025 ar gynnig Cyng William Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd – darllenwyd ymatebion ers cyfarfod diwethaf.** Roedd angen sylw gan Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i'r gully ger Pantlludw**. Y**nglyn â'r dwr o flaen Ty Alys, byddai Cyng William Rees yn cael gair eto gyda Sion Wilkes, gan fod prawf nad oedd newid y gwteri wedi helpu y sefyllfa.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – adroddodd Cyng Rhys Parry am gyfarfod gyda Bryn Hughes o Gyngor Gwynedd ar y 1af Hydref, ac darllenwyd e-bost wedyn oedd yn argymell y Cyngor Cymuned i beidio cymryd cyfrifoldeb am yr hen fynwent, a rhoi rhesymau. Byddai y Clerc yn ei ddosbarthu. Darllenwyd e-bost gan yr Eglwys yng Nghymru dyddiedig 11eg o Fedi yn cadarnhau y byddent yn talu holl gostau cyfreithiol rhesymol y Cyngor Cymuned gyda'r mater, ond ddim yn rhoi cymorth ar gyfer cynnal a chadw wedi hyn. Penderfynwyd gohirio y mater yma am y tro.
   Diolchodd y Cadeirydd i bawb ddaeth i gynorthwyo i dacluso yr hen fynwent. Nodwyd barodrwydd pawb i wneud hyn eto fel bo'r angen.
   c) **Menter y Glan** – CCTV – adroddwyd am 3 amcangyfrif i law gan Cyng Meirion Roberts ynglyn a hyn. Gofynnwyd a oedd unrhyw bosib llogi y camerau, a byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf.
   d) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - roedd y meinciau/byrddau picnic wedi eu delifro, a oedd o safon da iawn. Roedd cais am ad-daliad gan Gyngor Gwynedd wedi ei wneud gan y Clerc, a'r arian wedi ei derbyn. Roedd gweddill y gwaith gyda'r gronfa mewn llaw gan Cyng Meirion Roberts, a diolchwyd am hyn.

   e) **Cyngor Tref Aberdyfi** – Cynllun Trafnidiaeth cymunedol gwirfoddol – nodwyd y diweddaraf a'r cyfarfod cyhoeddus ar y 13 Tachwedd yn Neuadd Dyfi, Aberdyfi. Byddai'r Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) yn mynychu.
   f) Darllenwyd e-bost gan Cyng Aled Rees am y kiosk yn Cwrt, a'i fod wedi cael gair am y sefyllfa, a bod cytundeb i dynu yr ymbarel allan o'r kiosk a cadw y lle yn glîr fel y gall pawb gael gafael ar y difib yn hwylus. Nodwyd gan Aled fod hyn yn fwy têg na gorfodi hi i atal rhag gwerthu wyau or kiosk gan ei bôd hi yn fodlon cadw golwg ar y difib a cadw'r kiosk yn lân a thaclus. Diolchwyd a chytunwyd gyda hyn.
   Rhoddodd Aled hefyd y wybodaeth diweddaraf gyda'r De fibs.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw faterion i law.

6.**Materion Cyllid.**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (7.11.25), sef Cyfri Cyfredol £24,185.01, a Cyfri Cadw £2697.91.

Trafodwyd Cyllideb i'r Cyngor ar gyfer 2026-27, a dosbarthwyd ffigurau drafft. Penderfynwyd ar yr holl ffigurau yn fanwl. Gofynnwyd i'r Clerc geisio trefnu yswiriant i'r byrddau/meinciau newydd. Hefyd, roedd angen trefnu gwelliant i'r arhosfan bws yn Cwrt, a byddai rhaid trafod hyn yn y cyfarfod nesaf.

b) Nodwyd anfonebau i law, ac ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees, penderfynwyd fel a ganlyn;

- Anfoneb cyfraniad y Cyngor Cymuned i doiledau Pennal gan Gyngor Gwynedd 2025-26 - £4000.
- Cost torch Sul y Cofio - £30
- Cost y Glanrafon am fwyd i'r gwirfoddolwyr yn dilyn gwaith yn yr hen fynwent - £179.15

c) Ceisiadau am arian

- Ambiwlans Awyr Cymru - penderfynwyd peidio cyfrannu y tro hwn.

**7. . Gohebiaeth**

a) Nodwyd sesiynau hyfforddiant Un Llais Cymru a oedd i law, a byddai'r Clerc yn eu dosbarthu, a trefnu yr hyfforddiant yn ol y galw. Cytunodd Cyng Sion Evans fynd ar y cwrs hyfforddiant Cod ymddygiad ar y 9fed Rhagfyr , 6.30- 8.00yh. Byddai'r Clerc yn trefnu

b) Adroddwyd am Gyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru ar 21.10.25.

c) Nodwyd Cyfarfod Blynyddol Mantell Gwynedd ar 12.11.25

d) Nodwyd Stratgaeth Gwastraff Cyngor Gwynedd, a byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr i gwbwlhau yr holiadur.

8**.Unrhyw fater arall.**

- Trafodwyd fel roedd y goeden ar y Marian yn gwyro i un ochr, a gwelwyd y dylid cael adroddiad am y sefyllfa. Addawodd y Clerc gysylltu gyda Rhydian Roberts, Swyddog Coed a choedlannau'r Parc Cenedlaethol.
- Roedd cylfert wedi blocio unwaith eto ar ffordd Cefncynhafal, ac addawodd Cyng William Rees gael gair gyda Sion Wilkes.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener y 12fed Rhagfyr yn y Ganolfan am 7.30yh.**